# Gweithdrefnau Gêm Luxury Lines




### Cyflwyniad

Dyma'r Gweithdrefnau Gêm ar gyfer LUXURY LINES (y "Gêm"). Pan gaiff y Gêm ei chwarae, mae'r Rheolau ar gyfer Gemau Cardiau Crafu (y "Rheolau") a'r Gweithdrefnau hyn yn berthnasol. Gellir gweld y Rheolau mewn Safleoedd Manwerthu ac ar wefan y Loteri Genedlaethol yn **national-lottery.co.uk**.

Bydd gan unrhyw air neu ymadrodd yn y Gweithdrefnau hyn sydd ag ystyr penodol yr un ystyr â'r un a roddir iddo yn y Gweithdrefnau hyn neu yn y Rheolau (oni fydd y cyd-destun yn nodi'n glir fel arall).

### Manylion y Gêm

Enw'r Gêm: **"LUXURY LINES"**
Rhif y Gêm: **"Game 1404"**
Pris Manwerthu: **£3 am bob Cerdyn Crafu**

Ceir 1 siawns mewn 3.55 o ennill Gwobr ar bob Cerdyn Crafu yn y Gêm hon. Argraffwyd 24,881,880 o Gardiau Crafu ar gyfer y Gêm hon i gychwyn.

### Sut i chwarae ac ennill

Mae'r Ardal Chwarae yn cynnwys pedair adran. Un o dan y pennawd 'YOUR SYMBOLS SCRATCH HERE FIRST' ("Adran Eich Symbolau"), dau grid chwarae (y "Gridiau Chwarae", "Grid Chwarae" yn unigol) a blwch wedi'i labelu 'MULTIPLIER' (y "Blwch Lluosydd"). Mae pob Grid Chwarae yn cynnwys 16 o sgwariau, ac mae pob sgwâr yn cynnwys un o amrywiaeth o Symbolau Chwarae. Mae 16 o Linellau yn gysylltiedig â'r Gridiau Chwarae, gyda phob un yn cynnwys pedwar sgwâr sydd wedi'u nodi fel 'LINE 1', 'LINE 2', 'LINE 3', 'LINE 4', 'LINE 5', 'LINE 6', 'LINE 7', 'LINE 8', 'LINE 9', 'LINE 10', 'LINE 11', 'LINE 12', 'LINE 13', 'LINE 14', 'LINE 15' a 'LINE 16'. Ar ochr dde neu ar waelod pob Llinell mae'r gair PRIZE (y "Blwch Gwobr").

I chwarae'r Gêm, rhaid i chi grafu'r haen gyfan oddi ar Adran Eich Symbolau yn gyntaf er mwyn datgelu 18 o Symbolau Chwarae ("Eich Symbolau"). Yna, dylech grafu'r haen oddi ar y Symbolau Chwarae sydd wedi'u cynnwys yn y Gridiau Chwarae sy'n cyfateb i Symbolau Chwarae a ddatgelwyd o dan yr haen yn Adran Eich Symbolau.

Os caiff gofynion y Rheolau a'r Gweithdrefnau hyn eu bodloni, drwy grafu'r haen oddi ar y Symbolau Chwarae yn y Gridiau Chwarae sy'n cyfateb i Symbolau Chwarae yn Adran Eich Symbolau, byddwch yn ennill Gwobr os byddwch yn datgelu pedwar Symbol Chwarae sy'n cwblhau Llinell lorweddol neu fertigol yn un o'r Gridiau Chwarae ("Llinell Fuddugol") (gweler yr enghreifftiau isod). Bydd y Wobr yn gyfwerth â'r Symbol Gwobr gyda'i Bennawd Gwobr cyfatebol o dan haen y Blwch Gwobr ar gyfer y Llinell Fuddugol honno.

Os byddwch yn ennill Gwobr, dylech grafu'r Blwch Lluosydd:

Os byddwch yn datgelu Symbol Chwarae '1X' gyda'i Bennawd Chwarae cyfatebol o dan haen y Blwch Lluosydd, bydd y Wobr yn gyfwerth â swm y Symbol Gwobr gyda'i Bennawd Gwobr cyfatebol o dan haen y Blwch Gwobr ar gyfer y Llinell Fuddugol honno.


Os byddwch yn datgelu Symbol Chwarae '2X' gyda'i Bennawd Chwarae cyfatebol o dan haen y Blwch Lluosydd, bydd y Wobr yn gyfwerth â dwywaith swm y Symbol Gwobr gyda'i Bennawd Gwobr cyfatebol o dan haen y Blwch Gwobr ar gyfer y Llinell Fuddugol honno.

Os byddwch yn dod o hyd i Symbol Chwarae '5X' gyda'i Bennawd Chwarae cyfatebol o dan haen y Blwch Lluosydd, bydd y Wobr yn gyfwerth â phum gwaith swm y Symbol Gwobr gyda'i Bennawd Gwobr cyfatebol o dan haen y Blwch Gwobr ar gyfer y Llinell Fuddugol honno.

Os byddwch yn dod o hyd i Symbol Chwarae '10X' gyda'i Bennawd Chwarae cyfatebol o dan haen y Blwch Lluosydd, bydd y Wobr yn gyfwerth â deg gwaith swm y Symbol Gwobr gyda'i Bennawd Gwobr cyfatebol o dan haen y Blwch Gwobr ar gyfer y Llinell Fuddugol honno.


LLORWEDDOL
- Rhaid i chi ddatgelu 4 Symbol Chwarae sy'n cyfateb i Eich Symbolau sy'n cwblhau llinell lorweddol yn un o'r Gridiau Chwarae.

Enghreifftiau



FERTIGOL:
- Rhaid i chi ddatgelu 4 Symbol Chwarae sy'n cyfateb i Eich Symbolau sy'n cwblhau llinell fertigol yn un o'r Gridiau Chwarae.






Enghreifftiau



Mae'n bosibl cael hyd at 3 Llinell fuddugol ar un Grid Chwarae.

Gall chwaraewyr ennill hyd at 6 gwaith ar Gerdyn Crafu.

Symbolau Chwarae a Phenawdau Chwarae

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Symbolau Chwarae |  |  |  |  |  |  |
| Penawdau Chwarae | **-TUB-** | **-GEM-** | **-LIMO** | **-MENU** | **WATCH** | **PLANE** |
| Penawdau Chwarae Estynedig | **BATH TUB** | **GEM** | **LIMOUSINE** | **MENU** | **WATCH** | **AIRPLANE** |
| Symbolau Chwarae |  |  |  |  |  |  |
| Penawdau Chwarae | **LOUNGE** | **-GIFT** | **RDCRPT** | **-HOLS** | **PASSPT** | **SNWBRD** |
| Penawdau Chwarae Estynedig | **LOUNGE CHAIR** | **GIFT BOX** | **RED CARPET** | **HOLIDAY** | **PASSPORT** | **SNOWBOARD** |
| Symbolau Chwarae |  |  |  |  |  |  |
| Penawdau Chwarae | **YACHT** | **DIAMND** | **PERFME** | **-BANK** | **CARKEY** | **VOUCHR** |
| Penawdau Chwarae Estynedig | **YACHT** | **DIAMOND** | **PERFUME** | **BANK** | **CAR KEY** | **VOUCHER** |
| Symbolau Chwarae |  |  |  |  |  |  |
| Penawdau Chwarae | **VAULT** | **-BOW-** | **-SOFA** | **BRCLET** | **-VIP-** | **-BELT** |
| Penawdau Chwarae Estynedig | **VAULT** | **BOW** | **SOFA** | **BRACELET** | **VIP** | **BELT** |

| Symbolau Chwarae |  |  |  |  |
|---|---|---|---|---|
| Penawdau Chwarae | **-COINS** | **TELVSN** | **-RING** | **-BAG-** |
| Penawdau Chwarae Estynedig | **COINS** | **TELEVISION** | **RING** | **SHOPPING BAG** |

Bydd 18 o Symbolau Chwarae gyda'u Penawdau Chwarae cyfatebol yn ymddangos o dan yr haen yn Adran Eich Symbolau. Dim ond un Pennawd Chwarae sy'n ymddangos o dan bob Symbol Chwarae. Bydd pedwar Symbol Chwarae yn ymddangos o dan haen pob Llinell yn y Gridiau Chwarae.

### Symbolau Blwch Lluosydd a Phenawdau Blwch Lluosydd

Bydd un Symbol Chwarae Blwch Lluosydd gyda'i Bennawd Chwarae Blwch Lluosydd cyfatebol yn ymddangos o dan haen y Blwch Lluosydd. Dim ond y Symbolau Chwarae Blwch Lluosydd a'r Penawdau Chwarae Blwch Lluosydd y gellir eu defnyddio i bennu â pha swm y lluosir y Wobr a enillwyd, os o gwbl.

| Symbolau Lluosydd | 1X | 2X | 5X | 10X |
|---|---|---|---|---|
| Penawdau Lluosydd | **1TIMES** | **2TIMES** | **5TIMES** | **10TIMES** |

### Symbolau Gwobr a Phenawdau Gwobr

| Symbolau Gwobr | £3.00 | £5.00 | £10.00 | £15.00 | £20.00 | £30.00 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Penawdau Gwobr | **THREE** | **-FIVE** | **-TEN-** | **FIFTN** | **TWNTY** | **THRTY** |
| Symbolau Gwobr | £50.00 | £100 | £1,000 | £10,000 | £300K | |
| Penawdau Gwobr | **FIFTY** | **-HUND** | **-THOU** | **TNTHO** | **TRHTH** | |

Bydd un Symbol Gwobr gyda'i Bennawd Gwobr cyfatebol yn ymddangos o dan haen y Blwch Gwobr mewn Llinell yn y Gridiau Chwarae. Dim ond y Symbol Gwobr a'i Bennawd Gwobr cyfatebol o dan haen Blwch Gwobr mewn Llinell y gellir eu defnyddio i gadarnhau swm y Wobr y gallech ei hawlio, os o gwbl, mewn perthynas â'r Llinell honno.

### Y Gwobrau, Nifer y Gwobrau a Thebygolrwydd

| Y Gwobrau | | Nifer y Gwobrau Ar Ddechrau'r Gêm | Tebygolrwydd Bras (1 Mewn : ) Ar Ddechrau'r Gêm | Goddefiant ar gyfer y Tebygolrwydd o Ennill os caiff rhagor o gardiau crafu eu hargraffu |
|---|---|---|---|---|
| Gwerth y Wobr | Manylion y Gwobrau | | | |
| £3 | £3 | 2,488,335 | 10 | +/- 5.00% |
| £5 | £5 | 2,405,093 | 11 | +/- 5.00% |
| £10 | £10 | 165,812 | 151 | +/- 5.00% |
| £10 | £5 x 2 | 248,886 | 100 | +/- 5.00% |
| £10 | £5 MULT2 | 580,510 | 43 | +/- 5.00% |
| £15 | £15 | 248,886 | 100 | +/- 5.00% |
| £15 | £3 MULT5 | 414,698 | 60 | +/- 5.00% |
| £20 | £20 | 82,847 | 301 | +/- 5.00% |
| £20 | £5 x 4 | 82,965 | 300 | +/- 5.00% |
| £20 | (£3 x 5) + £5 | 165,965 | 150 | +/- 5.00% |
| £20 | £10 MULT2 | 82,921 | 301 | +/- 5.00% |
| £30 | £30 | 4,935 | 5,042 | +/- 5.00% |
| £30 | £3 MULT10 | 7,905 | 3,148 | +/- 5.00% |
| £30 | £15 MULT2 | 7,907 | 3,147 | +/- 5.00% |

18+

**GP GM1404**
Allwyn Entertainment Limited, PO Box 287, Watford WD18 9TT.
Llinell y Loteri Genedlaethol 0333 234 5050. Codir taliadau fel uchod am alwadau.

THE NATIONAL LOTTERY

| Y Gwobrau | | Nifer y Gwobrau Ar Ddechrau'r Gêm | Tebygolrwydd Bras (1 Mewn : ) Ar Ddechrau'r Gêm | Goddefiant ar gyfer y Tebygolrwydd o Ennill os caiff rhagor o gardiau crafu eu hargraffu |
|---|---|---|---|---|
| Gwerth y Wobr | Manylion y Gwobrau | | | |
| £50 | £50 | 2,973 | 8,370 | +/- 5.00% |
| £50 | (£5 x 2) + (£10 x 4) | 2,966 | 8,390 | +/- 5.00% |
| £50 | £5 MULT10 | 2,953 | 8,426 | +/- 5.00% |
| £50 | £10 MULT5 | 2,963 | 8,398 | +/- 5.00% |
| £100 | £100 | 394 | 63,152 | +/- 5.00% |
| £100 | (£15 x 4) + (£20 x 2) | 789 | 31,536 | +/- 5.00% |
| £100 | £50 MULT2 | 604 | 41,196 | +/- 5.00% |
| £100 | £20 MULT5 | 604 | 41,196 | +/- 5.00% |
| £100 | £10 MULT10 | 594 | 41,889 | +/- 5.00% |
| £1,000 | £1,000 | 15 | 1,658,792 | +/- 36.55% |
| £10,000 | £10,000 | 5 | 4,976,376 | +/- 36.55% |
| £300,000 | £300,000 | 5 | 4,976,376 | +/- 36.55% |

Wrth i'r Gwobrau gael eu hennill, bydd nifer y Gwobrau sydd ar gael ym mhob categori yn lleihau yn unol â hynny. Ar ôl i'r Wobr uchaf olaf gael ei dilysu, caniateir i Fanwerthwyr barhau i werthu'r Cardiau Crafu hynny sydd eisoes wedi'u hactifadu i'w gwerthu a chaiff unrhyw Gardiau Crafu nad ydynt wedi'u hactifadu eu tynnu'n ôl. Er mwyn dod o hyd i'r wybodaeth ddiweddaraf am y Gwobrau, ewch i **national-lottery.co.uk** neu ffoniwch Linell y Loteri Genedlaethol ar **0333 234 5050**. Ni fydd galwadau yn costio mwy na galwadau i rifau 01 a 02. Os yw eich tariff ffôn yn cynnwys galwadau i linellau tir, caiff galwadau i rifau 03 eu cynnwys ar yr un sail.

### Gwerth Gwobrau yn Y Gêm

Mae cyfanswm gwerth Gwobrau'r Cardiau Crafu a argraffwyd ar gyfer y Gêm i gychwyn yn cynrychioli 68.01% o gyfanswm gwerth enwol y Cardiau Crafu. £50,768,930 yw cyfanswm gwerth Gwobrau'r Cardiau Crafu a argraffwyd ar gyfer y Gêm i gychwyn.

Mae nifer y Gwobrau y gellir eu hennill gan y Cardiau Crafu a argraffwyd ar gyfer y Gêm i gychwyn yn cyfateb i nifer y Cardiau Crafu a gofnodwyd ar System Gyfrifiadurol Allwyn ac yr hysbyswyd y Comisiwn Hapchwarae amdanynt yn ffurfiol cyn gwerthu unrhyw Gardiau Crafu. Ni chaiff y manylion yn y Gweithdrefnau hyn eu diwygio er mwyn ystyried unrhyw Gardiau Crafu a werthir neu a gollir yn y dyfodol, Cardiau Crafu a gaiff eu tynnu'n ôl yn y dyfodol (lle y caiff y Cardiau Crafu hynny eu tynnu'n ôl gan Allwyn heb wybod a ydynt yn Gardiau Crafu â Gwobrau), na Chardiau Crafu ychwanegol a gaiff eu hargraffu ar gyfer y Gêm. Os bydd Gwobr uchaf ar gael o hyd, gall Allwyn argraffu Cardiau Crafu ychwanegol ar gyfer y Gêm hon. Os caiff Cardiau Crafu ychwanegol eu hargraffu ar gyfer y Gêm hon, o ran y Cardiau Crafu ychwanegol hynny, bydd y tebygolrwydd cyffredinol o ennill Gwobr ar bob lefel Gwobr, gan ystyried y lefelau goddefiant a nodir yn y tabl uchod, yr un fath ag ar gyfer y Cardiau Crafu a argraffwyd ar gyfer y Gêm i gychwyn.

### Cyffredinol

Os bydd unrhyw wrthdaro rhwng y Rheolau, y Gweithdrefnau ac unrhyw wybodaeth arall a gyhoeddir gan Allwyn o ran y Gêm hon, y Rheolau fydd drechaf, yna'r Gweithdrefnau ac yna unrhyw wybodaeth arall a gyhoeddir gan Allwyn.

18+

**GP GM1404**
Allwyn Entertainment Limited, PO Box 287, Watford WD18 9TT.
Llinell y Loteri Genedlaethol 0333 234 5050. Codir taliadau fel uchod am alwadau.

THE NATIONAL LOTTERY